



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Powys

Tachwedd 2012

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Powys

Rhagair

Ym mis Mawrth eleni, sefydlais Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys, dan gadeiryddiaeth Justin Baird-Murray, perchennog a Rheolwr Gyfarwyddwr Gwesty'r Metropole yn Llandrindod.

Sefydlais y grŵp i archwilio addasrwydd Ardaloedd Twf Lleol fel dewis amgen i Ardaloedd Menter ym Mhowys. Gwyddom nad yw'r model Ardaloedd Menter yn addas i bob ardal. Felly gofynnais i'r Grŵp archwilio model gan ganolbwyntio ar fusnesau llai a materion penodol yn ymwneud â'r sector manwerthu.

Cyhoeddais Adroddiad y Grŵp ar 17 Gorffennaf a chyhoeddais Ddatganiad ar yr un diwrnod. Roeddwn yn falch bod yr Adroddiad a'i ganfyddiadau wedi cael cefnogaeth gyffredinol ar draws y Siambr.

Dylid canmol y Grŵp am ei adroddiad manwl ac ystyriol, a roddodd lawer i ni yn Llywodraeth Cymru a'n partneriaid ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 40 o argymhellion, yr oedd angen i mi eu harchwilio gyda Chadeirydd y Grŵp, fy nghyd-Weinidogion a'm swyddogion dros yr haf er mwyn rhoi ystyriaeth lawn iddynt.

Roedd llawer o'r argymhellion yn rhai i Gyngor Sir Powys eu datblygu ac rwyf wedi rhoi copi o'r adroddiad i Arweinydd y Cyngor ei ystyried.

Mae'n bleser gennyf ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a gallaf ddweud bod llawer o gynnydd wedi'i wneud eisoes. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y modd y mae'r syniadau a'r prosiectau amrywiol hyn yn cael eu datblygu

Mewn ymateb i adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Powys hoffwn ailddatgan bod Cymru yn agored i fusnes a bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud popeth posibl i wella'r amgylchedd cystadleuol ar gyfer busnesau. Bydd ein hymateb i'r adolygiad hwn yn creu ysgogiad i roi gwell cymorth i fusnesau ac i annog swyddi a thwf.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Justin Baird-Murray ac aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am baratoi adroddiad mor drylwyr, a roddodd lawer i ni ei ystyried ac a gafodd gefnogaeth eang gan holl Aelodau'r Cynulliad.

Edwina Hart MBE OStJ AC

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Tachwedd 2012

Cyflwyniad

- 1 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ystyried opsiynau polisi i hybu a chefnogi twf economaidd a chynnig cyfle i brofi gwahanol fathau o ymyriadau sy'n sensitif i amgylchiadau economaidd lleol Powys a'r heriau sy'n ei hwynebu o ran twf.
- 2 Dewiswyd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn adlewyrchu a dangos arbenigedd mewn meysydd penodol, sef busnesau yn y sector preifat, datblygu ac adfywio economaidd yng nghefn gwlad a busnesau mewn sectorau allweddol megis gweithgynhyrchu, twristiaeth a manwerthu. Roedd aelodau'r grŵp fel a ganlyn:
 - Justin Baird-Murray
 - Janet Jones
 - Hannah Barrett
 - James Gibson-Watt
 - John Gallagher
 - Wynne Jones
 - Sue Balsom (cynghorydd)
- 3 Y dasg a roddwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a oedd yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, oedd:
 - Archwilio addasrwydd Ardaloedd Twf Lleol Powys fel dewis amgen i Ardaloedd Menter, drwy ddatblygu ymhellach y cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys,
 - Edrych ar y materion penodol sy'n effeithio ar drefi marchnad allweddol Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenwydd.
- 4 Cyflwynodd y Grŵp ei adroddiad i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf eleni. Seiliwyd yr adroddiad ar gyswllt ystyrion a dyls, a hwyluswyd drwy Gais am Dystiolaeth, a arweiniodd at 51 o ymatebion. Darparwyd yr ymatebion hyn gan fusnesau, cynrychiolwyr cymunedol, partneriaid o'r sector cyhoeddus, ac unigolion. Cafodd y Grŵp hefyd fewnbwn gan nifer o siaradwyr arbenigol a aeth i gyfarfodydd, a atebodd gwestiynau manwl ac a gynigiodd gyngor a chymorth yn ôl y gofyn. Fel hyn, ymgysylltodd y Grŵp gyda rhanddeiliaid drwy gydol y broses o lunio'r adroddiad.
- 5 Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael yn:
<http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/policy/powyslgz/?jsessionid=54453F1B8D5E80574B439554976DD2D6?lang=en>
- 6 Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfanswm o 40 o argymhellion, yn cynnwys dau argymhelliad cyffredinol fel a ganlyn:

Argymhelliad Un: mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol yn berthnasol i Bowys fel model amgen yn lle Ardaloedd Menter er mwyn helpu i hybu a chynnal swyddi a thwf yn y sir. Felly, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad Dau: mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod canol llawer o drefi yn wynebu bygythiad sylweddol ac yr ystyrir eu bod yn dirywio. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu mentrau a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys penodi hyrwyddwyr, ym mhob un o'r tair tref, sef y Drenwydd, Llandrindod ac Aberhonddu, er mwyn llunio cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a phartneriaid eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 7 Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad Ardaloedd Twf Lleol Powys, sy'n cynnwys argymhellion eang. Mae wedi rhoi llawer i'r Llywodraeth a'n partneriaid ei ystyried.
- 8 Mae llawer o'r argymhellion sydd wedi'u targedu at Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu agenda drawslywodraethol sy'n cynnwys materion sy'n berthnasol i sawl portffolio Gweinidogol.
- 9 Cyfeirir nifer o argymhellion hefyd at Gyngor Sir Powys i'r awdurdod lleol eu hystyried a'u datblygu fel sy'n briodol. Cyflwynwyd copi o'r adroddiad i Arweinydd y Cyngor ei ystyried.
- 10 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynd i'r afael â rhai o argymhellion yr adroddiad, a bydd yn mynd i'r afael â'r gweddill ar unwaith. Bydd angen gwaith tymor hwy ar rai o'r argymhellion. Mae'r adran ganlynol yn rhoi rhagor o fanylion ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys. Mae'n nodi sut mae'r syniadau a'r prosiectau amrywiol yn cael eu datblygu. Mae'r ymatebion wedi'u grwpio yn ôl themâu i gynorthwyo'r cyflwyniad.

Argymhelliad Cyffredinol Cyntaf

Argymhelliad Un: mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r farn bod y cysyniad o Ardaloedd Twf Lleol yn berthnasol i Bowys fel model amgen yn lle Ardaloedd Menter er mwyn helpu i hybu a chynnal swyddi a thwf yn y sir. Felly, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'r cynigion ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol fel y nodir yn yr adroddiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad a'i gasgliadau a byddwn yn datblygu camau gweithredu i gefnogi Ardaloedd Twf Lleol ym Mhowys.

Mae'r argymhelliad hwn yn gyffredinol ei natur, a rhoddir sylw manylach iddo yn y dadansoddiad o'r camau gweithredu a nodir o dan argymhellion 1A i 1Z ar y tudalennau canlynol.

Lleoliad Ardaloedd Twf Lleol

1A: Y dylai Ardaloedd Twf Lleol Powys gael eu sefydlu yn y lleoliadau canlynol:

- ◆ Dyffryn Hafren (Y Trallwng / y Drenewydd / Llanidloes)
- ◆ Rhaeadr Gwy / Llandrindod / Llanfair-ym-Muallt
- ◆ Aberhonddu / Bronllys / Talgarth
- ◆ Ystradgynlais

Y lleoliadau a ddewiswyd yw'r ardaloedd yr ystyrir eu bod fwyaf priodol i'w dynodi yn Ardaloedd Twf Lleol ac a gaiff yr effaith fwyaf - h.y. yng nghanolfannau poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau'r sir. Bydd lleoli Ardaloedd Twf Lleol yma yn cefnogi datblygiad a thwf economaidd mewn modd cynaliadwy, ac yn sicrhau buddiannau i'r ardaloedd gwledig sy'n eu hamgylchynu. Maent hefyd yn cyd-fynd â'r coridor twf canolog a nodir yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan Bowys i lywio'r gwaith o ddatblygu ei Chynllun Datblygu Lleol.

Gwasanaeth Band Eang / WiFi / Ffonau Symudol

1B: Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Ardaloedd Twf Lleol yn cael gwasanaeth band eang cynhwysfawr fel mater o flaenoriaeth fel rhan o gam cyntaf y broses o gyflwyno prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

1C: Y dylai'r gwaith o ddarparu band eang hefyd gael ei gysylltu â'r gwaith o ddarparu WiFi ym mhob un o'r trefi yn yr Ardaloedd Twf Lleol

1D: Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant telathrebu i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwell seilwaith ar gyfer teleffoni symudol yn y sir

Nod prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yw sicrhau bod 96% o gartrefi a busnesau ledled Cymru yn gallu cael band eang cyflymder uchel erbyn 2015. Cynhelir y prosiect mewn ardaloedd lle nad yw'r sector preifat yn buddsoddi, sy'n debygol o gynnwys Ardaloedd Twf Lleol, gan fod y broses gyflwyno fasnachol yn yr ardaloedd hyn yn gyfyngedig iawn.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf y caiff y contract ei ddyfarnu i BT, ac mae'r cynlluniau i gyflwyno'r ddarpariaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru'n aros i Gymorth Gwladwriaethol gael ei glirio ond hoffai weld blaenoriaeth yn cael ei rhoi i Ardaloedd Twf Lleol Powys yn ystod y broses gyflwyno, yn dilyn Ardaloedd Menter. Bydd swyddogion yn ystyried y flaenoriaeth newydd hon yn y broses gynllunio fanwl a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda BT i gyflwyno band eang ffibr yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Bydd yr union fanylion ar gael maes o law.

Y technolegau allweddol a ddefnyddir drwy'r prosiect yw Ffibr i'r Cabinet a Ffibr i'r Eiddo. Mae canran fechan o ardaloedd anodd iawn eu cyrraedd o hyd ledled Cymru nad oes cynlluniau i'r prosiect eu gwasanaethu, ac rydym wrthi'n archwilio opsiynau i fynd i'r afael ag argaeledd band eang cyflymder uchel ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Nid yw darpariaeth WiFi yn rhan o brosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru a bydd angen mynd i'r afael â hyn drwy ddulliau eraill. Fodd bynnag, bydd gwasanaeth band eang ffibr cynhwysfawr yn cefnogi unrhyw ddarpariaeth WiFi ychwanegol a gyflwynir. Felly mae elfennau o'r argymhelliad penodol hwn yn berthnasol i sefydliadau mwy lleol, fel y Cyngor Sir a chynghorau tref a chymuned.

Yn ogystal â'r uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Powys ac eraill i archwilio'r cyfleoedd sylweddol a gyflwynir ym maes darparu gofal iechyd yn sgil technolegau digidol gwell. Megis dechrau y mae'r gwaith ar y cynigion hyn - sy'n cael eu datblygu gan Bartneriaeth Digidol Powys - ond mae ganddynt y potensial i gyflwyno buddiannau gwirioneddol i bobl a chymunedau ym Mhowys.

Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y Prosiect Seilwaith Symudol sy'n werth £150 miliwn. Mae'r prosiect hwn yn allweddol i wella cwrpas y gwasanaeth ffonau symudol yng Nghymru lle

mae'r gwasanaeth yn wael ar hyn o bryd os yw'n bodoli o gwbl. Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y daw'r broses gaffael ar gyfer y prosiect hwn i ben ar ddechrau Haf 2013. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Ofcom yr amserlen ar gyfer arwerthiant sbectrwm 4G y disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn Haf 2013. Mae Ofcom wedi gosod rhwymedigaeth wledig benodol ar un o'r pum trwydded sbectrwm y disgwylir iddi arwain at gwmpas 4G o tua 98% yn yr awyr agored ledled Cymru erbyn 2017.

Seilwaith Trafnidiaeth

1E: Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff y prosiectau seilwaith allweddol, fel y'u nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (gan gynnwys ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd, y gwasanaeth bob awr ar Lein y Cambrian, a gwelliannau ffordd ar yr A458 rhwng Buttington Cross a Wollaston Cross) eu datblygu fel mater o flaenoriaeth

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a flaenoriaethwyd yn nodi ein blaenoriaethau trafndiaeth ar gyfer Powys.

Cadarnhawyd cynllun ffordd osgoi'r Drenewydd yng nghyhoeddiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Rhagfyr 2011 ynghylch y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a flaenoriaethwyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni hyn. Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo ar y cynllun a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar ddiwedd 2014/dechrau 2015 ar yr amod bod y broses ganiatâd statudol yn cael ei chwblhau yn foddhaol a bod arian ar gael.

Mae gwasanaethau rheilffyrdd bob awr yn ystod y dydd ar brif linell y Cambrian rhwng Aberystwyth a'r Amwythig yn un o ymrwymadau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a flaenoriaethwyd. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad pellach o werth am arian a fforddiadwyedd ac yn amodol ar hyn disgwylir y bydd gwasanaethau newydd yn dechrau yn 2014-15.

Yn olaf cafodd cynllun Buttington Cross a Wollaston Cross hefyd ei gynnwys yng nghyhoeddiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Rhagfyr 2011 ynghylch y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a flaenoriaethwyd. Caiff y cynllun hwn ei gyflwyno rywbryd ar ôl 2015, yn dibynnu ar drafodaethau pellach gydag Awdurdodau Priffyrdd Lloegr.

Safleoedd Busnes

1F: Y dylai'r sector cyhoeddus hwyluso busnesau sy'n bodoli eisoes ym Mhowys sydd am adleoli i safleoedd mwy priodol a'u rhoi ar y trywydd cyflym a'u cefnogi, tra'n cefnogi busnesau sy'n dod i mewn y mae angen safleoedd arnynt

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau gweithredol i roi cymorth i gwmnïau unigol er mwyn datblygu atebion i ddiwallu anghenion eiddo penodol. Mae ein portffolio eiddo presennol yn cynnig dewis o dir ac adeiladau ar draws Powys a chymerir camau i sicrhau y caiff y rhain eu cynnig ar delerau cystadleuol.

Mae tir ac eiddo ar gael ar hyn o bryd yn nifer o leoliadau'r Ardaloedd Twf Lleol, drwy'r sector preifat neu'r sector cyhoeddus. Mae Cronfa Ddata Eiddo Cymru a weithredir gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys manylion tir ac eiddo sydd ar gael i gynorthwyo darpar mewnfuddsoddwyr a busnesau cynhenid sy'n awyddus i adleoli.

Mae gwaith a wnaed gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Gynllun Datblygu Lleol wedi dangos bod angen diweddaru'r stoc o safleoedd busnes a buddsoddi ynddynt. Os nad yw'r eiddo presennol yn diwallu anghenion busnes, gellir cefnogi cwmnïau drwy ddatblygu adeiladau newydd yn uniongyrchol, buddsoddi mewn tir a seilwaith neu ddarparu grantiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Cynllunio

1G: Y dylai Cyngor Sir Powys edrych ar yr is-ddeddfwriaeth ar gyfer Gorchmynion Datblygu Lleol, er mwyn nodi pa mor briodol ydynt ar gyfer trefi, safleoedd ac ardaloedd a ddewiswyd yn yr Ardaloedd Twf Lleol

1H: Y dylai Cyngor Sir Powys roi sylw priodol i argymhellion y Grŵp hwn a defnyddio'r adroddiad hwn i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu

1I: Yn sgil adolygiadau o brosesau cynllunio sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, y dylai'r Gweinidog geisio cydgysylltu ag adrannau eraill ynghylch y ffordd y mae'r system gynllunio yn gweithredu ledled y sir, gan roi sylw penodol i'r modd y mae'r broses gynllunio yn annog ac yn galluogi twf economaidd a chreu swyddi a, lle bynnag y bo modd, geisio symleiddio prosesau a chefnogi gwaith datblygu priodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r pwerau angenrheidiol i roi Gorchmynion Datblygu Lleol ar waith (mis Ebrill 2012) ac mae cymorth ar gael drwy'r Gronfa Gwella Cynllunio i hwyluso hyn.

Mater i Gyngor Sir Powys yw sut y defnyddir y pwerau ac mae'r Gweinidog wedi nodi y byddai'n ei annog i archwilio'r mater hwn ymhellach yng nghyd-destun yr Ardaloedd Twf Lleol.

Mae Cyngor Sir Powys wedi dechrau gwaith ar ei Gynllun Datblygu Lleol ac, fel pob awdurdod cynllunio lleol, mae'n ofynnol iddo baratoi cynllun pendant sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

O ran diwygio'r system gynllunio, mae llawer o waith yn mynd rhagddo eisoes. Mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgynghori'n eang ar ddatblygu polisi a deddfwriaeth, ac mae'r Bil Cynllunio arfaethedig yn rhoi cyfle i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol sy'n datblygu'r agenda ddiwygio. Sefydlwyd Grŵp Cynghori Annibynnol i ystyried y ffyrdd gorau o ddarparu'r gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr adroddiad a luniwyd gan y Grŵp Cynghori Annibynnol a'i argymhellion.

Gwaith Adfywio Ffisegol mewn Canol Trefi

1J: Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhoi rhaglen Menter Treftadaeth Treflun ar waith a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r prif drefi mewn Ardaloedd Twf Lleol

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys yw gweithredu'r argymhelliad hwn.

Fodd bynnag, fel rhan o Raglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren, gydag arian drwy Raglen Cystadleurwydd yr UE, darparwyd adnoddau i gefnogi gwaith adfywio sylweddol mewn canol trefi. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Treftadaeth Adeiledig i wella adeiladau ar draws ardal Dyffryn Hafren, yn ogystal â phrosiectau Gwelliant Amgylcheddol yn y Drenewydd, y Trallwng a Llanidloes.

Sgiliau a Hyfforddiant

1K: Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r cymorth angenrheidiol i ddarparwyr Addysg Bellach yn y sir er mwyn sicrhau y gellir darparu cyrsiau priodol, gan gynnwys prentisiaethau, sy'n cysylltu ag anghenion busnesau lleol, i fyfyrwyr ym Mhowys, gan ystyried natur wledig y sir a nifer fach y myfyrwyr sydd yn aml yn dilyn cyrsiau

1L: Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir blaenoriaeth o ran hyfforddiant a chymorth i fusnesau mewn Ardaloedd Twf Lleol

Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystyried yr argymhellion hyn ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu archwilio'r materion hyn ymhellach.

Ardrethi Busnes

1N: Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y caiff unrhyw gynnig neu gynllun ad-dalu ardrethi (fel y'i nodir yn argymhelliad 10 yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes) ei ymestyn i gwmpasu'r Ardaloedd Twf Lleol arfaethedig ym Mhowys

1O: Y dylai Llywodraeth Cymru ailasesu ardrethi busnes / gwerth ardrethol yn yr Ardaloedd Twf Lleol, yn seiliedig ar y sefyllfa economaidd bresennol

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Ardrethi Busnes ar 23 Hydref, a chynigiodd Gynllun Ardrethi Busnes ar gyfer Ardaloedd Menter. Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd y cynllun newydd ar ôl 12 mis ac yna wneud penderfyniad ar gynllun wedi'i dargedu yn Ardaloedd Twf Lleol Powys.

Fel rhan o'r ymateb ar 23 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth hefyd gyllid ar gyfer costau sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes. Bydd y rhain yn annog busnesau i ddod ynghyd a helpu ei gilydd i wella'r hyn a gynigir ganddynt. Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cydweithio â'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i ddarparu cronfa o £200,000 ar y cyd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Dylai Ardaloedd Twf Lleol ystyried y model hwn yn adnodd priodol i gyflwyno gwelliannau mewn canol trefi a chaiff trefi ym Mhowys eu hannog i ystyried buddiannau Ardaloedd Gwella Busnes.

Yn ogystal, bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cefnogi prosiect peilot a arweinir gan fusnesau yn Llandrindod (gweler argymhelliad 2G) a fydd yn ystyried p'un a fyddai Ardal Gwella Busnes yn ddefnyddiol i'r dref.

Byddai datganoli ardrethi busnes yn rhoi hyblygrwydd i ddefnyddio ardrethi busnes i gefnogi datblygiad a thwf economaidd yng Nghymru. Bydd Comisiwn Silk yn ystyried ardrethi busnes fel rhan o'r setliad ariannu cyfan ar gyfer Cymru. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyfres gynhwysfawr o ddiwygiadau ariannol ar gyfer Cymru a fyddai'n cynnwys trefniadau ariannu tecach a threfniadau benthyca effeithiol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi gohirio'r ymarfer ailbrisio y disgwylir iddo ddod yn weithredol yn Lloegr yn 2015 tan 2017. Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi gofyn i'r Athro Morgan, a arweiniodd y gwaith o lunio'r adroddiad Ardrethi Busnes, edrych ar y materion a rhoi cyngor ar y mater penodol hwn.

Ar hyn o bryd mae gan dalwyr ardrethi'r hawl i apelio am ostyngiad yn y gwerth ardrethol os ydynt yn credu bod yr asesiad yn anghywir. Gellir gwneud apeliadau hefyd os bu newid perthnasol mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eiddo unigol neu ardal benodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn gofyn iddynt lunio canllawiau penodol ar newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau.

1M: Y dylai darparwyr AB a Llywodraeth Cymru roi sylw ar frys i sicrhau cyfathrebu cliriach am y cymorth sydd ar gael mewn Ardaloedd Twf Lleol.

1P: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau yn ystyried pwysigrwydd mentora, cynllunio ar gyfer olyniaeth, marchnata, hyrwyddo ac, yn benodol, uwchsgilio TGCh ar gyfer busnesau bach yn y sir

1Q: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir cymorth sy'n diwallu'n benodol anghenion microfusnesau a busnesau bach, am mai dyma'r prif fathau o fusnesau a geir ledled Powys

1R: Bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fodlon bod natur wledig y rhanbarth a'i microfusnesau amrywiol yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth cymorth i fusnesau o fis Ionawr 2013 ymlaen

1S: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys wneud rhagor o waith i ystyried opsiynau ar gyfer denu benthycwyr eraill i'r farchnad er mwyn hwyluso'r broses o gael gafael ar gyllid, yn enwedig ar gyfer microfusnesau a busnesau bach yn y sir

1T: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y dylai unrhyw gyllid a gaiff ei fenthycu drwy systemau sy'n bodoli eisoes yn y sector cyhoeddus gael ei flaenoriaethu ar gyfer Ardaloedd Twf Lleol (er na ddylid ei gyfyngu iddynt hwy yn unig)

1U: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau bod y rhanbarth yn cael ei farchnata mewn ffordd ddynamig fel lleoliad ar gyfer datblygu busnesau newydd a chynhenid

Bydd yr adolygiad diweddar o wefan busnes.cymru.gov.uk a'r ail-lansiad (Tachwedd 2012) yn helpu i ddatblygu'r argymhellion hyn yn ogystal â'r camau i sefydlu Siop Un Stop a Gwasanaeth Mentora a fydd yn weithredol o fis Ionawr 2013.

Roedd y broses dendro a dyfarnu contractau ar gyfer y Siop Un Stop a'r Gwasanaeth Mentora yn bendant bod yn rhaid i ddarparwyr ystyried anghenion amrywiol gwahanol rannau o Gymru, a rhoi tystiolaeth yn y tendr i ddangos eu dealltwriaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei gwefannau diwygiedig yn gwella hygyrchedd gwybodaeth am faterion busnes allweddol. Y prif ddull o hyrwyddo Cymru i fusnesau yw gwefan busnes.cymru.gov.uk, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i farchnata Cymru gyfan, yn cynnwys Powys, fel lle i wneud busnes.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater o gael gafael ar arian a benthycwyr, er enghraifft drwy sefydlu Cronfa BBaCh newydd Cymru sydd werth £40 miliwn a'r gronfa micro-fenthyciadau £ miliwn.

Mae gan Lywodraeth Cymru amryw o opsiynau cymorth eraill sydd ar gael i fusnesau, y mae eu manylion yn busnes.cymru.gov.uk. Mae'r cymorth hwn ar gael i fusnesau ym Mhowys a ledled Cymru.

Ynni Adnewyddadwy

1V: Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio gyda chyflenwyr ynni er mwyn sicrhau y caiff y seilwaith ynni yn y sir ei wella'n briodol, tra'n parhau i helpu i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy priodol sy'n gydnaws ag amgylchedd naturiol y sir

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflenwyr ynni i sicrhau y caiff y seilwaith ynni yn y sir ei wella'n briodol. Gwneir hyn fel rhan o'n cymorth i ddatblygu amrywiaeth o dechnolegau adnewyddadwy priodol ledled Cymru.

Sefydlwyd tîm Ynni a'r Amgylchedd yn Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y sector pwysig hwn yn cael y cymorth angenrheidiol. Bydd y Prif Weinidog yn parhau i weithio gyda chyflenwyr ynni i sicrhau bod cyflenwad a seilwaith ynni addas at y diben ym mhob rhan o Gymru.

Hefyd, pan ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ardrethi Busnes ar 23 Hydref, cyhoeddodd gynllun wedi'i anelu at gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy. Gallai busnesau sy'n llwyr ymwneud â chreu gwres a/neu ynni o ffynonellau adnewyddadwy, ac sy'n fusnesau newydd neu sy'n cynyddu maint eu gweithlu parhaol, fod yn gymwys i gael cyfran o'r £1.5 miliwn y flwyddyn sydd ar gael o dan y cynllun. Bydd y ceisiadau ar gyfer y cynllun yn agor ym mis Ionawr 2013, a bydd manylion y meini prawf ar gael drwy ein sianeli busnes arferol cyn y lansiad.

Hefyd, mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi ysgrifennu i Lywodraeth y DU i gynnig gwella'r gostyngiad sydd ar gael i fusnesau sy'n buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Arian a Dynodiadau yr UE

1W: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys ystyried sut y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cylch nesaf o arian gan yr UE (2014 i 2020) er mwyn helpu i gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad hwn gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

1X: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau yr edrychir ar y dynodiad a roddir i Bowys gan yr UE yn y dyfodol ar ôl 2020, gan ystyried anghenion presennol a CMC isel.

1Y: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y rhoddir ystyriaeth arbennig i'r sir yn yr adolygiad arfaethedig o'r map o ardaloedd a gynorthwyr

Nodwyd cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru gan y Dirprwy Weinidog Rhaglenni Ewropeaidd ym mis Mai 2012 ac amlinellwyd yr egwyddorion a'r meysydd blaenoriaeth a fydd yn sail i raglenni'r UE yng Nghymru.

Mae'r gwaith o ddatblygu rhaglenni'n mynd rhagddo, ac mae amrywiaeth eang o randdeiliaid yn rhan ohono, yn cynnwys cynrychiolwyr Llywodraeth Leol. Mae'r gwaith o ddatblygu rhaglenni presennol yn cynnwys ffocws y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol, sydd wedi dod â buddiannau sylweddol i Bowys yn ystod cyfnod y rhaglen bresennol. Disgwylir cynnal ymgynghoriad ar ddatblygu rhaglenni rywbryd ar ddechrau 2013.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan mewn adolygiadau o'r broses o ddynodi ardaloedd daearyddol a gynhelir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU, a bydd yn ceisio sicrhau bod cyfluniad presennol rhanbarthau yng Nghymru yn diwallu anghenion pobl Cymru yn y ffordd orau bosibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rhan agos a gweithredol yn y gwaith o adolygu'r Canllawiau ar ardaloedd a gynorthwyr drwy gydol y broses, wrth geisio dod i ganlyniad sy'n ffafriol i Gymru (yn cynnwys Powys) ar ôl 2013.

Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio pob opsiwn, o dan y meini prawf yn y Canllawiau newydd ac mewn trafodaethau gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, ar gyfer ardaloedd a gynorthwyr a datblygiad economaidd yng Nghymru.

Twristiaeth

1Z: Y dylai Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Powys sicrhau y manteisir ar y cyfle i adeiladu ar ansawdd yr ardal a datblygu'r sector twristiaeth ymhellach

Mae twristiaeth yn sector allweddol yn economi Powys, a chaiff ei gydnabod yn un o'r sectorau allweddol ar gyfer cymorth gan Lywodraeth Cymru.

Fel y cyfryw, mae Panel Sector Twristiaeth eisoes wedi'i sefydlu i roi cyngor ar gyfeiriad cyffredinol cymorth twristiaeth ledled Cymru. Mae'r Panel yn cynnal adolygiad o strategaeth twristiaeth genedlaethol Cymru, a chaiff sefyllfa Powys ei hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Rhagwelir y caiff y strategaeth ddiwygiedig ei lansio yng Ngwanwyn 2013.

Penodwyd Dr Manon Williams i Lywodraeth Cymru er mwyn arwain y broses o roi'r strategaeth twristiaeth hon ar waith.

Yr Ail Argymhelliad Cyffredinol

Argymhelliad Dau: mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod bod canol llawer o drefi yn wynebu bygythiad sylweddol ac yr ystyrir eu bod yn dirywio. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru helpu i ddatblygu mentrau a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys penodi hyrwyddwyr, ym mhob un o'r tair tref, sef y Drenewydd, Llandrindod ac Aberhonddu, er mwyn llunio cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a phartneriaid eraill.

Mae'r argymhelliad hwn yn gyffredinol ei natur, a rhoddir sylw manylach iddo yn y dadansoddiad o'r camau gweithredu a amlinellir o dan argymhellion 2A i 2L ar y tudalennau canlynol.

Y Drenewydd

2A: Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl canol tref y Drenewydd ymhellach fel canolfan wasanaethu

2B: Y dylai aelodau'r fath fenter, ynghyd â'r hyrwyddwr, ystyried yn benodol fodel Hwyluso Menter Ernesto Sirolli a ph'un a yw'n gymwys i'r Drenewydd, gan ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Sir Powys fel rhan o'i gynllun peilot manwerthu yng nghanol trefi

2C: Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau geisio sicrhau bod cynghreiriau cryfach yn cael eu creu rhwng busnesau a darparwyr Addysg Bellach, er mwyn sefydlu'r Drenewydd fel canolfan i ddysgu sy'n canolbwyntio ar fusnes a chanolfan ragoriaeth

2D: Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd yn cael ei chwblhau yn unol â'r amserlen, gyda'r gwaith i ddechrau fel y bwriadwyd yn 2014

2E: Y dylai adfywio Neuadd y Farchnad fod yn sbardun pwysig i'r Drenewydd ac y dylai Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru ystyried y cyfleoedd sydd i fanteisio ar hyn, gan gynnwys opsiynau ariannu

2F: Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer y Drenewydd

Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng Swyddogion a Sefydliad Sirolli i sefydlu model o ddatblygiad economaidd sy'n seiliedig ar y gymuned yn y Drenewydd a'r cyffiniau. Nod model Sirolli yw helpu i greu busnesau newydd drwy feithrin talent pobl leol drwy fentora a Hwyluso Menter. Mae'n adeiladu ar waith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ym Mlaenau Gwent.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu canlyniad gweithgareddau peilot yn Llandrindod (gweler argymhelliad 2G), a fydd yn darparu arfer gorau y gall y Drenewydd a threfi eraill adeiladu arno fel sy'n briodol. Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru yn darparu cronfa £200,000 i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu ardaloedd gwella busnes yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Dylai Ardaloedd Twf Lleol, yn cynnwys y Drenewydd, ystyried ac archwilio'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Gwella Busnes.

O ran trafnidiaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon ymhlith busnesau lleol yn y Drenewydd ac ar draws y rhanbarth o ran y broblem traffig ar yr A483/A489 ac mae sylwadau amrywiol wedi dod i law ar hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnal astudiaeth bellach i ddod o hyd i ateb. Cadarnhawyd cynllun ffordd osgoi'r Drenewydd yng nghyhoeddiad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Rhagfyr 2011 ynghylch y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a flaenoriaethwyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni hyn. Mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau ar ddiwedd 2014/dechrau 2015 ar yr amod bod y broses ganiatâd statudol yn cael ei chwblhau yn foddhaol a bod arian ar gael.

Cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r Cyngor â chynrychiolwyr o brosiect Neuadd y Farchnad i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu'r prosiect. Mae'r broses yn mynd rhagddi o hyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o'r trafodaethau.

Mae Cyngor Sir Powys, fel rhan o'i raglen adfywio, yn datblygu nifer o brosiectau yn y Drenewydd a ariennir yn rhannol drwy ffynonellau arian Ewropeaidd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

Yn olaf, o ran Menter Treftadaeth Treflun, mae hwn yn argymhelliad y gall Cyngor Sir Powys ei ddatblygu os bydd yn dymuno gwneud hynny, ac mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi ysgrifennu at Arweinydd Cyngor Sir Powys i'r perwyl hwn.

Llandrindod

2G: Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Llandrindod ymhellach fel canolfan digwyddiadau a chynadledda

2H: Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau hefyd geisio gwella rôl Llandrindod fel canolfan i dwristiaeth treftadaeth, gan adeiladu ar yr etifeddiaeth twristiaeth draddodiadol a'r amgylchedd naturiol eithriadol gerllaw

2I: Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor addas yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Llandrindod

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar unwaith i gefnogi prosiect peilot a arweinir gan fusnesau yn Llandrindod yn unol â'r argymhelliad a geir yn yr adroddiad, gan ei brofi i weld a fyddai'n addas ar gyfer y Drenewydd, Aberhonddu a lleoedd eraill fel sy'n briodol. Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi cyfarfod â Justin Baird-Murray i drafod hyn, ac wedi gofyn iddo ddatblygu'r gwaith hwn.

Arweinir y prosiect gan fusnesau lleol, a fydd yn cydweithio i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â chynaliadwyedd economaidd y dref. Bydd cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith hwn, a fydd hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu Ardal Gwella Busnes yn y dref.

Mae prosiect peilot Llandrindod yn hollbwysig, oherwydd y bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr i ni o'r hyn y gallwn ei gyflawni yn ein trefi marchnad gwledig.

Fel rhan o'r ymateb ar 23 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth hefyd arian ar gyfer costau sefydlu Ardaloedd Gwella Busnes. Bydd y rhain yn annog busnesau i ddod ynghyd a helpu ei gilydd i wella'r hyn a gynigir ganddynt. Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cydweithio â'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i ddarparu cronfa o £200,000 ar y cyd i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Dylai Ardaloedd Twf Lleol ystyried ac archwilio buddiannau Ardaloedd Gwella Busnes.

Mae twristiaeth yn sector allweddol yn economi Powys, a chaiff ei gydnabod yn un o'r sectorau allweddol ar gyfer cymorth gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd Panel Sector Twristiaeth dan gadeiryddiaeth Dan Clayton Jones i roi cyngor ar gyfeiriad cyffredinol cymorth twristiaeth ledled Cymru. Mae'r Panel yn cynnal adolygiad o strategaeth twristiaeth genedlaethol Cymru, a chaiff sefyllfa Powys ei hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Rhagwelir y caiff y strategaeth ddiwygiedig ei lansio yng Ngwanwyn 2013. Penodwyd Dr Manon Williams i Lywodraeth Cymru er mwyn arwain y broses o roi'r strategaeth twristiaeth hon ar waith.

Yn olaf, o ran Menter Treftadaeth Treflun, mae hwn yn argymhelliad y gall Cyngor Sir Powys ei ddatblygu os bydd yn dymuno gwneud hynny, ac mae'r Gweinidog Busnes,

Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi ysgrifennu at Arweinydd Cyngor Sir Powys i'r perwyl hwn.

Aberhonddu

2J: Y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu'r gwaith o sefydlu menter a arweinir gan fusnesau, gan gynnwys hyrwyddwr / hwylusydd, a fydd yn ceisio datblygu rôl Aberhonddu fel canolfan i dwristiaid ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth awyr agored, yr hyn a gynigir o ran treftadaeth (e.e. amgueddfeydd) a'r hyn a gynigir o ran y celfyddydau a diwylliant (e.e. Gŵyl Jazz Aberhonddu)

2K: Y dylai'r fenter a arweinir gan fusnesau ystyried yr opsiynau i ddatblygu rôl Aberhonddu fel lleoliad siopa ymhellach, gan adeiladu'n benodol ar yr hyn sydd gan y dref i'w gynnig o ran siopau arbenigol / siopau bwtîg

2L: Y dylai Cyngor Sir Powys ystyried pa mor briodol yw rhaglen Menter Treftadaeth Treflun a chynllun grant i wella blaen siopau ar gyfer Aberhonddu

Yn Aberhonddu mae'n bleser gennyf gyhoeddi y byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith o wefannau lleol, gyda'r bwriad o wella economi canol y dref. Cyflawnir hyn drwy gynyddu masnach ar gyfer busnesau lleol a sicrhau swyddi yn y busnesau hynny.

Bydd y rhwydwaith digidol hwn ledled y dref yn galluogi masnachwyr lleol i gyfathrebu a rhyngweithio gyda'u cwsmeriaid a chynnig mentrau fel talebau cynigion arbennig a gwasanaethau dosbarthu ar y cyd. Bydd hefyd yn galluogi cymunedau a busnesau unigol i hyrwyddo a marchnata eu hunain i'r byd y tu hwnt i'r gymuned honno. Bydd y fenter hon hefyd yn cynnig llwyfan i'r gwasanaethau cyfryngau Hyperleol yn ardal Powys fel y rheini a gafodd arian yn gynharach eleni gan brosiect Cyrchfan Lleol NESTA, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r dechnoleg newydd a chyffrous hon yn gwneud cyfraniad pwysig at waith Llywodraeth Cymru i gefnogi canol ein trefi.

Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu canlyniad gweithgareddau peilot yn Llandrindod (gweler argymhelliad 2G), a fydd yn darparu arfer gorau y gall Aberhonddu a threfi eraill adeiladu arno, fel sy'n briodol. Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru yn darparu cronfa o £200,000 i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Dylai Ardaloedd Twf Lleol, yn cynnwys Aberhonddu, ystyried y model hwn ac archwilio buddiannau Ardaloedd Gwella Busnes.

Mae twristiaeth yn sector allweddol yn economi Powys, a chaiff ei gydnabod yn un o'r sectorau allweddol ar gyfer cymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae Panel Sector Twristiaeth, dan gadeiryddiaeth Dan Clayton Jones, eisoes wedi ei sefydlu i roi cyngor ar gyfeiriad cyffredinol cymorth twristiaeth ledled Cymru. Mae'r Panel yn cynnal adolygiad o strategaeth twristiaeth genedlaethol Cymru, a chaiff sefyllfa Powys ei hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Rhagwelir y caiff y strategaeth ddiwygiedig ei lansio ym mis Mawrth 2013. Penodwyd Dr Manon Williams i Lywodraeth Cymru er mwyn arwain y broses o roi'r strategaeth twristiaeth hon ar waith.

Yn olaf, o ran Menter Treftadaeth Treflun, mae hwn yn argymhelliad y gall Cyngor Sir Powys ei ddatblygu os bydd yn dymuno gwneud hynny, ac mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi ysgrifennu at Arweinydd Cyngor Sir Powys i'r perwyl hwn.

